## PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

## 18 Mai 2016

Yn bresennol: Mr AE Sangster (Cadeirydd)
Cynghorydd Mrs L Jenkins, Cynghorydd DWM Rees, Mrs M Thomas a’r Cynghorydd M Williams; Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro), Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro), Mr R Smith (yn cynrychioli'r sector busnes, gynt o Fenter Busnes Sir Benfro).

(Swyddfa’r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.40pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd RM Lewis; Mr S Bradley a Mrs H Murray (PLANED), Mr P Stone (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Ms L Williams (Twristiaeth Sir Benfro).

**2. Datgan Buddiannau**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Ionawr 2016 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

O ran penodi Dirprwy Gadeirydd (Cofnod 2), gan y byddai’n rhaid penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor (y cyntaf yn dilyn Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol yr Awdurdod) cytunwyd i ddal yn ôl tan hynny cyn penodi Dirprwy Gadeirydd.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Ionawr 2016.

**4. Adroddiad Diweddaru Cronfa Datblygu Cynaliadwy**

Roedd adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF) yn amlinellu’r pedwar cais oedd gerbron y Pwyllgor i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Nodwyd y byddai unrhyw gymorth grant a gynigir i Lif Llanw Strwmbwl, Cysylltiadau Naturiol, neu i Goleg y Môr yn cael ei ystyried i fod yn Gymorth Gwladol ac felly’n cael ei gynnig fel cymorth 'de minimus' o dan y Rheoliadau. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am bob un o’r prosiectau cyfredol a'r camau a gymerwyd, ac am bob un o’r prosiectau hynny oedd yn cael eu datblygu ar y pryd, a

chyfeiriodd y Gweinyddwr at dri yn benodol oedd wedi newid neu wedi'u gohirio ers caniatáu rhoi cymorth ariannol iddynt.  Y prosiectau hynny oedd:

(i) SDF 0348 Cadwraeth a Dehongli Odyn Ganoloesol Trefdraeth: llwyddwyd i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer cyfnod datblygu'r prosiect hwn o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a bu oedi cyn cychwyn y prosiect oherwydd yr angen am gydymffurfio â gofynion Cronfa'r Loteri. Roedd cyfraniad ariannol SDF at y prosiect yn gyfraniad yn y flwyddyn ariannol 2015/16 tuag at y gwaith dehongli, ymgysylltu ac addysg, ac ni allai hyn ddigwydd tan yn ddiweddarach yn y cyfnod datblygu a dechrau'r cyfnod cyflawni.  Cytunwyd felly y byddai'r grant yn cael ei gario ymlaen a'i dalu yn y flwyddyn ariannol 2016/17.

(ii) SDF 0346 Cynllun Peilot Gofal Solfach: roedd newid yn nifer yr oriau mewn-da neu gyfraniadau gwirfoddol fyddai'n cael ei roi i'r prosiect wedi ei gytuno fel amcangyfrif mwy cywir a realistig o faint y cyfraniadau gwirfoddol oedd wedi cael ei wneud ar ôl i'r prosiect gychwyn.  Byddai'r newid yn golygu bod y gyfradd ymyrraeth yn cynyddu o 25% i 37% oherwydd bod y gostyngiad diwygiedig yn yr amcangyfrif o gyfraniadau gwirfoddol yn lleihau Cyfanswm Gwerth y Prosiect o £94,038 i £63,686.  Nodwyd bod cydlynydd y prosiect a ariennir wedi cael ei benodi fis Mehefin 2015 ac ers hynny bod y gwaith a wnaed ar y prosiect a'r camau ymlaen a gymerwyd wedi bod yn ardderchog.

(iii) SDF 0343 Pwyth mewn Pryd: Roedd cyllid wedi'i ganiatáu yn wreiddiol dros ddwy flwyddyn ariannol sef 2014-15 a 2015-16 ond cytunwyd i ymestyn amserlen wreiddiol y prosiect oherwydd newidiadau yn y personél; byddai'r prosiect yn awr yn parhau i'r flwyddyn ariannol 2016-17.  Dywedwyd yn y cyfarfod y byddai tua £10,000 o gyllid oedd wedi'i ymrwymo yn cael ei gario ymlaen i 2016-17.

Dywedwyd bod Aelodau Ymgynghorol y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael eu penodi am gyfnod o bedair blynedd.  Roedd tri o'r aelodau Ymgynghorol presennol wedi'u penodi fis Awst 2012 ac felly byddai cyfnod eu penodiad yn dod i ben fis Awst 2016.  Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r Polisi SDF, a chynigiwyd felly bod cais yn cael ei wneud i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ganiatáu estyniad o 12 mis tra bod yr adolygiad hwnnw yn cael ei gynnal.  Mynegodd Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ei diolch i'r aelodau Ymgynghorol am yr amser a'r ymdrech a roesant i'r Pwyllgor. Os nad oedd unrhyw un o'r Aelodau Ymgynghorol dan sylw yn hapus i ymestyn eu penodiad am 12 mis arall, gofynnwyd iddynt roi gwybod i'r Gweinyddwr  SDF.

Aeth y Gweinyddwr SDF rhagddi i roi adroddiad ar y sefyllfa ariannol am y flwyddyn 2016/17 pan oedd £100,000 wedi'i neilltuo i gefnogi prosiectau SDF. Yn ogystal, byddai balans o £924 yn cael ei gario ymlaen o 2015/16 gan olygu y byddai cyfanswm o £100,924 o gyllid ar gael i brosiectau yn 2016-17. Cyflwynwyd ffigurau wedi'u diweddaru yn y tabl ar waelod tudalen 5 o'r adroddiad ar gronfeydd a gariwyd drosodd ac yr ymrwymwyd iddynt, ac felly byddai diffyg o £19,890.50 os oedd pob prosiect fyddai'n cael eu hystyried y diwrnod hwnnw yn haeddu cymorth ariannol. Yn y sefyllfa honno, cynghorwyd y gellid gwneud cais i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol am gyllid ychwanegol.

Hefyd rhoddwyd diweddariad ar y cynllun Grant Bach Gwyrdd.

**PENDERFYNWYD**

a) bod cais yn cael ei wneud i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ganiatáu ymestyn cyfnod penodiad Aelodau Ymgynghorol y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy o 12 mis tra bod adolygiad o'r Polisi SDF yn cael ei gynnal
b) bod adroddiad y Gweinyddwr Cronfa Datblygu Cynaliadwy yn cael ei nodi.

**5. Ceisiadau am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried pedwar cais newydd am gyllid o dan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Cafodd y ceisiadau eu hystyried yn fanwl yn erbyn meini prawf asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o ymgeiswyr y prosiectau. Atgoffodd y Gweinyddwr SDF yr Aelodau bod sawl un o'r ceisiadau ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth oedd yn fasnachol sensitif.

| Rhif Cyf | Enw'r Prosiect | Cyflwyniad gan | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| SDF 0355 | Llif Llanw Strwmbwl | Jane O'Brien<br>Tom Latter<br>Ben Ferguson-Walker | Trawsnewid Bro Gwaun |
| SDF 0360 | Naturally Connected/ Cysylltiadau Naturiol | Sarah Mellor | APC Arfordir Penfro |
| SDF 0361 | Cwricwlwm Arfordirol – Ynni Morol | Ceri Crichton | Fforwm Arfordirol Sir Benfro |
| SDF 0362 | Coleg y Môr | Cliff Benson<br>Anna Elliott | Sea Trust |

[Ymddiheurodd y Cynghorydd M Williams a gadawodd y cyfarfod am hanner dydd.]

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor bod cylch gorchwyl y Pwyllgor yn pennu mai Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol sydd i wneud penderfyniadau, gan ystyried barn yr Aelodau Ymgynghorol oedd yn bresennol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

(a) bod swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano yn cael ei ganiatau i'r ceisiadau canlynol, yn unol ag amodau arferol y grant:

(i) SDF 0355 Llif Llanw Strwmbwl
(iii) SDF 0361 Cwricwlwm Arfordirol - Ynni Morol

(b) gwneud argymhelliad i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol am fwy o gyllid i alluogi rhoi'r swm llawn o arian y gofynnir amdano i'r ceisiadau canlynol, yn unol ag amodau arferol y grant ac unrhyw gafeat ychwanegol y cytunwyd arno yn y cyfarfod (a fanylir isod):

(i) SDF 0360 Naturally Connected/Cysylltiadau Naturiol - cyn belled â bod y wybodaeth yn adroddiadau'r Ymgynghorydd ar gael a bod cymysgedd dda o fathau o fusnesau a lleoliadau daearyddol ar gyfer busnesau sy'n cymryd rhan.
(ii) SDF 0362 Coleg y Môr – cyn belled â bod Cyngor Sir Penfro yn rhoi prydles yr adeilad i Conygar Cymru plc.